Atodiad 1. Templed: Ysgol Bro Preseli
Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	**Data**
Enw'r ysgol	Ysgol Bro Preseli
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	933
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	Medi 2024
Dyddiad y caiff ei adolygu	
Awdurdodwyd y datganiad gan	Rhonwen Morris
Yn arwain ar y GDD	Sioned Booth-Coates
Llywodraethwr sy'n arwain	Rhianydd James

Trosolwg Cyllid

Manylion	**Swm**
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon	£ 51,750.00
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon	£ 5,415,734.00

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Efallai y byddwch eisiau cynnwys gwybodaeth am:

- Beth yw eich amcanion yn y pen draw ar gyfer y disgyblion a gefnogir?
- Sut mae eich cynllun strategaeth bresennol yn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion hynny?
- Beth yw prif egwyddorion eich cynllun strategaeth?

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	
Gwella presenoldeb, hunan-werth ac ymrwymiad ein disgyblion RADY a PYaDd CA3 a 4.	Cynnydd ym mhresenoldeb y disgyblion allweddol. Gwell hyder a llesiant disgyblion, mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol, a lleihad mewn materion llesiant sy'n effeithio ar ddysgu. Mwy o ymgysylltiad mewn gwersi, gwell perfformiad academaidd, a chynnydd mewn dyheadau ac uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.
Codi hyder a dealltwriaeth ym mhynciau craidd CA4 i ddisgyblion PYaDd.	Cynnydd ym mherfformiad y disgyblion RADY PYaDd – cau'r bwlch. Gwell perfformiad mewn asesiadau ffurfiannol a chrynodol, mwy o fedrusrwydd wrth ddefnyddio sgiliau craidd, a gwell gallu i drosglwyddo gwybodaeth i gyd-destunau newydd.
Paratoi adnoddau ar gyfer y disgyblion PYaDd.	Cynnydd yng nghyfranogiad disgyblion ar draws pob maes dysgu wrth wneud defnydd pwrpasol o'r adnoddau. Gwell perfformiad mewn asesiadau, cynnydd mewn hyder a sgiliau.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

Cyflog y Gweithiwr Ieuenctid. Sesiynau cyfoethogi lles ac academaidd i'n disgyblion PYaDd. Talu am tacsi er mwyn mynychu sesiynau ar ôl ysgol pan fo angen. Prynu adnoddau ar gyfer ein disgyblion PYaDd o fewn y gwersi e.e. cynhwysion coginio, offer arbenigol ayb.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £ 5000

Gweithgaredd	**Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn**
Tacsi i fynychu gweithgareddau ar ôl ysgol.	Mynediad lawn i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau dealltwriaeth o bob agwedd o'r cyrsiau TGAU craidd.
Prynu adnoddau i'n disgyblion PYaDd (cynhwysion coginio, cyfrifianellau, offer ysgrifennu).	Sicrhau bod modd i'n disgyblion PyaDd fod yn rhan o bob agwedd o'r cwricwlwm.

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £ *3900*

Gweithgaredd	**Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn**
Amethyst	Cael mynediad i gyrsiau a chyfleoedd yn Theatr y Byd Bach yn Aberteifi. Mae'r cyrsiau yn cwmpasu nifer o elfennau megis lles, gwytnwch, LGBTQ+ ayb.

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £ 38,640

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Rôl y gweithiwr ieuenctid	Gweithredu'r Cynllun Cam Ymlaen (Blwyddyn 7), y Cynllun Cam Ymhellach (Blwyddyn 8) a'r Cynllun Cam Pendant (Blwyddyn 9). Darparu ystod o brofiadau – diwylliannol, cymunedol, academaidd gyrfaol er mwyn creu'r ymdeimlad o ddinasyddiaeth gadarnhaol a chynnig mewnwelediad i weithgareddau newydd.

Cyfanswm cost y ceisiadau: £ *47,540*

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2023 i 2024.

Gweithgarwch	Effaith
Cynllun cam ymlaen ayb	Presenoldeb ac ymrwymiad disgyblion wedi gwella. Disgyblion wedi creu perthynas glos gyda staff lle mae modd rhannu materion gyda nhw a sicrhau lles y disgyblion.
Sesiynau tiwtora llythrennedd a rhifedd	Mwy o ddisgyblion PYaDd yn cyrraedd eu graddau targed ac yn cyfranogi mewn sesiynau ar ôl ysgol gyda trafnidiaeth wedi'i baratoi.
Trefnu cyfarfodydd rhwng rhieni/gwarchodwyr a Phenaethiaid Cynnydd a Lles/Rheolwyr Llinell i drafod strategaethau cefnogi yn y cartref.	Trefnu cludiant i'r rhieni fynychu cyfarfodydd a nosweithiau rhieni. Ymrwymiad gan rieni yn codi dyheadau a chefnogaeth y disgyblion. Cynnydd ym mhresenoldeb rhieni mewn nosweithiau rhieni / arbennig

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	**Darparwr**
Rhaglen Meddwlgarwch a Gwytnwch	Disgyblion PYaDd a RADY wedi cael y cyfle i dderbyn hyfforddiant ychwanegol wrth ganolbwyntio ar lles.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Defnyddiwch y blwch hwn i rannu unrhyw wybodaeth bellach am eich strategaeth GDD. Er enghraifft, ynglŷn â chynllunio eich strategaeth, neu weithgaredd arall rydych chi'n ei weithredu i gefnogi disgyblion o aelwydydd incwm isel, nad yw'n dibynnu ar GDD.